Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Swyddfa'r Gogledd
10 Stryd y Plas
Caernarfon
Gwynedd

LL55 1RR

01286 662908

gogledd@cymdeithas.org

Y Cynghorydd Gweno Glyn
Cadeirydd
Pwyllgor Iaith Cyngor Gwynedd

5 Tachwedd, 2014

Annwyl Gynghorydd Gweno Glyn,

Parthed: Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-26

Byddem yn ddiolchgar i chi pe baech mor garedig â dwyn y llythyr hwn i sylw aelodau Pwyllgor Iaith Cyngor Gwynedd yn ei gyfarfod nesaf.

Fel y gwyddoch, mae cryn bryder wedi ei fynegi ynghylch yr uchod a chafwyd beirniadaeth gyhoeddus o'r cynllun am sawl rheswm. Dyma fater a fydd yn effeithio ar dynged y Gymraeg yng Ngwynedd a Môn.

Yr ydym yn anfon atoch ynglyn â rhan a swyddogaethau Pwyllgor Iaith Cyngor Gwynedd yn y broses o lunio'r Cynllun Datblygu Lleol.

Fel y gwyddoch, mae'r Cyngor yn bwriadu cyflwyno drafft ymgynghorol o'r Cynllun Adnau i'r Cabinet fis nesaf, a byddem yn falch iawn pe baech yn rhoi gwybod inni:
1. Sut mae'r Pwyllgor Iaith wedi bod yn craffu hyd yma yn y broses o lunio'r Cynllun Datblygu Lleol?
2. Sut mae'r Pwyllgor Iaith wedi ymateb i'r diffygion amlwg sydd yn y model a ddefnyddiwyd hyd yma i asesu effaith y Cynllun Datblygu Lleol ar y Gymraeg? Mae adroddiad yr asesiad effaith ieithyddol yn cynnwys anghysonderau a gwrth-ddweud, ac mae'r casgliadau yn amwys, ac yn ddi-sail oherwydd diffyg tystiolaeth feintiol. Rydym yn siwr y cytunwch â ni fod hyn yn fater difrifol iawn, ac y dylid ei gywiro yn ddiymdroi.
3. Sut mae'r Pwyllgor Iaith yn craffu ar y Cynllun Adnau?
4. A yw'r model a ddefnyddir i asesu effaith ieithyddol y Cynllun Adnau yn addas? Mae hyn yn allweddol.

Diolch i chi am eich cydweithrediad. Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

Osian Jones
Swyddog Maes y Gogledd

cc Y Cyng. Mair Rowlands, Is-gadeirydd